**Cyflwynwyd yr ymateb hwn i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru)|**

**This response was submitted to the Children, Young People and Education Committee on the Residential Outdoor Education (Wales) Bill**

**ROE 13**

**Ymateb gan: Comisiynydd y Gymraeg**
**Response from: Welsh Language Commissioner**

---

17/01/2024

Annwyl Bwyllgor,

**Ymgynghoriad: Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru)**

Diolch am y cyfle i gyfrannu at yr ymgynghoriad uchod. Gwnaethom ymateb i'r ymgynghoriad a gynhaliodd Sam Rowlands AS i'r Bil arfaethedig ym mis Mawrth ac i gais pellach gan Mr Rowlands am sylwadau ym mis Medi 2023.

Wrth ymateb i'r ceisiadau uchod, gwnaethom fynegi ein barn bod addysg awyr agored yn bwysig iawn i addysg a datblygiad cyffredinol plant a phobl ifanc. Credwn y dylai plant a phobl ifanc gael cyfle i gymryd rhan mewn addysg awyr agored breswyl rhywbryd yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Yng nghyd-destun y Gymraeg, gwnaethom y pwyntiau canlynol:

- Gall addysg awyr agored gynnig cyfleoedd pwysig i blant a phobl ifanc glywed a defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth ac mewn sefyllfaoedd anffurfiol a hwyliog.
- Mae gan addysg awyr agored, felly, y potensial i gyfrannu'n sylweddol at nod strategaeth Cymraeg 2050 o sicrhau bod mwy o blant a phobl ifanc yn dod yn siaradwyr Cymraeg hyderus.

Byddwn yn ymhelaethu isod ar bwysigrwydd y Gymraeg yn y sector addysg awyr agored.

Mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ddyroddi canllawiau mewn cysylltiad ag addysg awyr agored breswyl. Yn rhan o hyn –

> "rhaid iddynt ddarparu y caiff addysg awyr agored breswyl ei darparu yn Gymraeg, cyn belled â'i bod ar gael, pan fo ysgol yn gwneud cais am hynny" (1(3)(3)(d))

**Comisiynydd y Gymraeg**
Uned 2, Bloc C
Doc Fictoria
Caernarfon
LL55 1TH

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg**

comisiynyddygymraeg.cymru

**Welsh Language Commissioner**
Unit 2, Block C
Victoria Dock
Caernarfon
LL55 1TH

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
**Correspondence welcomed in Welsh and English**

welshlanguagecommissioner.wales

> "cânt ddarparu bod addysg awyr agored breswyl yn hybu dealltwriaeth o'r Gymraeg a diwylliant Cymru" (1(3)(3)(e))

Rydym yn falch o weld ystyriaeth i'r Gymraeg yn y Bil. Fodd bynnag, gwnaethom annog Mr Rowlands i gryfhau'r cymalau sy'n ymwneud â'r Gymraeg er mwyn gwireddu potensial y Bil i gynorthwyo mwy o blant a phobl ifanc i ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus. Ar hyn o bryd, nid yw'r cymalau uchod yn cynnig unrhyw sicrwydd y bydd darpariaeth addysg awyr agored ar gael yn Gymraeg i'r ysgolion hynny sy'n ei dymuno. Nid ydynt chwaith yn gwneud y mwyaf o botensial cyrsiau preswyl o'r fath i gyfrannu at ddarparu cyfleoedd i bob disgybl glywed a defnyddio'r Gymraeg.

Rydym wedi argymell y dylid addasu'r cymalau a ddyfynnwyd uchod, fel a ganlyn:

> "rhaid iddynt ddarparu bod pob darparwr addysg awyr agored breswyl yn gallu darparu trwy gyfrwng y Gymraeg" (1(3)(3)(d))
>
> "yn unol â gofynion y cwricwlwm i Gymru, rhaid iddynt ddarparu bod addysg awyr agored breswyl yn cynnig cyfleoedd i bob disgybl ddysgu a chael profiadau trwy gyfrwng y Gymraeg" (1(3)(3)(e))
>
> "rhaid iddynt ddarparu bod addysg awyr agored breswyl yn hybu dealltwriaeth o'r Gymraeg a diwylliant Cymru" (1(3)(3)(f))

Byddai'r cymalau hyn yn gosod gofynion penodol ar ddarparwyr cyrsiau preswyl i gynnig elfennau Cymraeg yn ogystal â diwylliant a hunaniaeth yn rhan o'u darpariaeth. Trwy wneud yr elfennau hyn yn rhan annatod o'r ddarpariaeth, yn hytrach nag yn rhywbeth y mae'n rhaid i ysgol ofyn amdano, gan ddibynnu ar fympwy'r darparwr i'w dderbyn, gellid cyflwyno newid arwyddocaol i addysg awyr agored a fyddai'n gwneud cyfraniad pwysig yng nghyd-destun polisïau a strategaethau eraill y Llywodraeth ym maes addysg a'r Gymraeg. O ganlyniad, byddai'r Bil yn cefnogi Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdodau lleol, sydd â'r bwriad o gynyddu nifer y plant sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg ledled Cymru. Byddai hefyd yn cefnogi ysgolion i gyflawni gofynion y cwricwlwm o safbwynt y Gymraeg, yn ogystal â'r Siarter Iaith ysgolion, sy'n ceisio cynyddu defnydd cymdeithasol plant a phobl ifanc o'r Gymraeg.

Mewn sesiwn dystiolaeth a gynhaliodd y Pwyllgor ar 6 Rhagfyr 2023 dywedodd Mr Rowlands nad oes digon o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yng Nghymru ar hyn o bryd a bod y Bil yn cynnig her i'r sector a'r Llywodraeth i ehangu'r ddarpariaeth honno. Nid ydym yn cytuno bod y Bil yn gosod y fath her i'r sector a'r Llywodraeth, ac mae llawer mwy y gellid ei wneud er mwyn sicrhau bod gan bob plentyn yng Nghymru y cyfle i dderbyn addysg awyr agored o fewn Cymru, gyda'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru yn rhan hanfodol o'r addysg honno. Byddai gosod y nod hwnnw yn glir yn fodd o annog datblygiad darpariaeth cyfrwng Cymraeg a chreu swyddi yn y sector ar gyfer siaradwyr Cymraeg mewn ardaloedd gwledig lle mae llai o gyfleoedd cyflogaeth ar hyn o bryd.

Yn gysylltiedig â'r pwyntiau uchod, rydym wedi nodi fod angen sail ymchwil fwy cadarn er mwyn deall yn well oblygiadau'r Bil ar gyfer y Gymraeg. Byddai'n ddefnyddiol deall mwy am gapasiti'r sector addysg awyr agored i ddarparu trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog i fwy o ysgolion a disgyblion. Mae cyrsiau preswyl yr Urdd yn cynnig cyfleoedd arwyddocaol i ddisgyblion ar draws Cymru brofi ystod o weithgareddau awyr agored, tra hefyd yn cael eu trwytho yn yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru. Mae'n debyg mai'r Urdd yw'r darparwr unigol mwyaf yng Nghymru. Mewn sesiwn dystiolaeth arall a gynhaliodd y Pwyllgor ar 6 Rhagfyr 2023 dywedodd Ceren Roberts, Cyfarwyddwr Canolfan Breswyl yr Urdd yng Nghaerdydd, y byddai'n anodd iawn i'r mudiad ddarparu ar gyfer yr holl ofynion a fyddai'n codi petai cynnydd yn nifer yr ymwelwyr i wersylloedd yr Urdd o ysgolion cyfrwng Saesneg. Dywedodd hefyd fod yr Urdd yn barod i rannu arbenigedd ac arfer da. Dylid ystyried ffyrdd o fanteisio i'r eithaf ar y ddarpariaeth genedlaethol hon, a pharodrwydd yr Urdd i rannu ei harbenigedd, er mwyn cynnig profiad addysg awyr agored breswyl cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog i blant a phobl ifanc yng Nghymru.

Gobeithio y bydd y sylwadau uchod o gymorth wrth i chi drafod y Bil arfaethedig.

Yr eiddoch yn gywir,

**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg